Site Stakeholder Group

Summary of Key points from the Wylfa Site Stakeholder Group Meeting on 31 January 2019

1. The Chairman updated members on his SSG activities since October 2018 referring to:

   - Magnox Executive SSG Chairs Meeting, London 19 Nov 2018
   - NDA Reactor Decommissioning Workshop, London 28 Nov 2018
   - Meeting with Paul Vallance, NDA Communications Director and Lawrie Haynes, Chair Designate of Magnox Ltd, Warrington 16 January 2019

2. Stuart Law presented the Site Director's Report drawing particular attention to:

   - Site Operations and Key Projects
   - Transition to Care & Maintenance Preparations

3. Bill Hamilton, Nuclear Decommissioning Authority gave an update of activities across the Estate on behalf of the NDA.

4. Rona Arkle, National Resources Wales presented an update on NRW activity at Wylfa

5. An update on recipients of the Magnox Socio-Economic Scheme was presented by Mair Jones.

.

Site Stakeholder Group

Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
Thursday 31 January 2019, David Hughes Hall, Cemaes

Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
D Stuart Law	Site Director, Magnox
Mair Jones	Magnox Socio Economic Lead, Wales and Scotland
Caron Weaver,	Magnox Asset Manager and Improvement Director
Bill Hamilton	Nuclear Decommissioning Authority
Rona Arkle	Natural Resources Wales
Charlotte Parrington	Natural Resources Wales
Roy Chape	DCWW
Enid Jones	Merched y Wawr
Sue Scott	Anglesey WI
Derek Owen	Llanbadrig Community Council
Mark Elsworth	Head of Chemistry, Magnox
Cllr Gareth W Roberts	Amlwch Town Council
Cllr Ken Hughes	IOACC Talybolion Ward
Gordon Warren	Amlwch Town Council
Richards Griffiths	Amlwch Town Council
Roger Dobson	Llanbadrog Community Council

Also:

Ann Llwyd	Translator – Cymen
Sydna Roberts	Minute taker – Cymen

Apologies:

Michelle Humphreys	Communications Regional Lead Magnox
John McGough,	ONR
Julia Frost	Natural Resources Wales
John Idris Jones	Snowdonia Enterprise Zone
Gwyn Hughes	Emergency Planning Officer IoACC
John Grifftihs	IoACC Talybolion Ward
Llinos M Huws	IoACC Talybolion Ward
R O Jones	IoACC

1 Welcome and Receive Apologies for Absence

The Chair welcomed all to the meeting at 2pm. Apologies were noted as above.

2 Approval of Minutes of the Meeting held 4 October 2018

The minutes had been circulated prior to the meeting. Cllr G W Roberts proposed that the minutes were correct and the proposal was seconded by Cllr K Hughes. The minutes were received and accepted as a true record.

3 Matters Arising from the Previous Minutes

None raised, however, it was noted that emails have been sent to Rhosybol and Llaneilian Community Councils to request representatives to join the voting members of the SSG following the updated Constitution.

4 SSG Chairman's Report

The Chair gave an overview of his activities since the last meeting and drew particular attention to:

- Magnox Executive SSG Chairs Meeting, London 19 Nov 2018
- NDA Reactor Decommissioning Workshop, London 28 Nov 2018
- Meeting with Paul Vallance, NDA Communications Director and Lawrie Haynes, Chair Designate of Magnox Ltd, Warrington 16 January 2019

5 Wylfa Site Director's Report

Stuart Law presented his report. Copies of the report had been forwarded to SSG members and were also available at the meeting. In summary, Mr Law referred to

Site Operations and Key Projects

Defuelling performance during the reporting period continued to excel, with a record 1013 fuel elements defuelled from the reactors in a week. Defuelling operations continued throughout the festive season to reach the 80% overall defuelled landmark. As of 16 January 2019, the reactors were 82% defuelled overall with 23,053 spent fuel elements remaining on site and 154 fuel flask shipments to go.

A passive cooling demonstration of reactor one was conducted in October to prove that fuel element and concrete temperatures could be kept within safety case limits without the need to apply boiler cooling to the reactor core in order to remain within operating limits. Following safety case approval, reactor one was declared in a passive cooling regime on 6 December 2018. Reactor two was declared in a passive cooling regime in February 2018. Therefore, all associated nuclear safety related plant and their operating rules have been stood down.

As a result, a significant amount of work has been removed from the nuclear maintenance schedule, the boilers; back-up feed system, tertiary feed system and the site's diesel generators have all been stood down. This is a significant milestone in the site's operating lifecycle.

The Dry Store Cell Four (DSC4) project to remove 37 skip tubes containing fuel element corrosion debris completed in October, bringing one of Magnox' most difficult intermediate level waste retrieval challenges to a successful conclusion.

Two instances of fuses were found during Periodic Inspection & Test (PIT) not matching the ledger ratings. This followed previous issues with fuses at site in 2016. In addition, ONR

also noted small numbers of fuse boards unlocked and/or cluttered with loose spare fuses and holders during a subsequent site walkdown. This resulted in an amber rating for the review and an ONR enforcement letter in respect of the Electricity at Work Act 1989.

The Alternative Emergency Control Centre based at The Firs on the Cemlyn Road has been relocated to the former Magnox Learning & Development Centre at Coleg Menai, Llangefni. This facility enables Magnox to carry out the command and control of an event if the on-site emergency control centre (ECC) was deemed to be untenable. It is equipped with the same emergency industry radio systems, satellite phones, radiation monitoring systems and all the necessary communications and backup supply systems.

Transition to Care & Maintenance Preparations
A number of activities are underway to support the site's transition from defuelling to care and maintenance preparations in a safe, secure and compliant manner:

Traffic management improvements have been made to increase the visibility of designated walkways and segregate roads and paths with pedestrian barriers.

A draft decommissioning organisational structure is being developed that aligns to the site's lifetime plan. This has been ratified by the Magnox Executive: has been presented to Trade Unions and the workforce.

The withdrawal of shift operations will be one of the biggest changes post defuelling. This is likely to be conducted in two phases, proportionate to the reduced risk profile of the site. Phase 1 will reduce manning levels but continue to maintain 24/7 site operational presence. After a period of three months, phase 2 will encompass complete withdrawal of shift operations and the cessation of 24/7 operational manning.

A programme of mandatory training is in progress for all Magnox staff and key representatives from our main contractor organisations to prepare the workforce for the site wide implications of standing down our existing off-site emergency provisions as we transition to work to Contingency Arrangements.

Maentwrog Site Operations
Rainfall between 28 April to 31 August 2018 was 712.3mm. Electricity generation for the same period was 26.2 Gigawatt Hours against a target of 21Gigawatt Hours.

Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q)
Safety statistics 18 January
Total recorded incident rate (TRIR): 0.18
Days away case rate (DACR): 0.18
No of days since a lost time accident: 191

Visits
The NDA Chairman, Tom Smith, visited the Wylfa Site on 5 October and was very complimentary about the people he met and recognised the significant improvements being achieved. He also met the SSG Chair and Vice Chair before a walk around the site.

Adrienne Kelbie CEO,ONR, Mark Foy ONR Chief Nuclear Inspector and John McGough ONR Site Inspector visited the site on 19 October to see the fuel route in operation. They also had an in-depth discussion with members of the Women in Nuclear network.

Workforce
As of 31 December 2018, there were 287 employees and 26 Agency Supplied Workers on site (not including Security or Magnox Support Office staff based at Wylfa).
SL also referred to several fundraising events arranged by the workforce to support worthy local charities.

Question and Answer session
Roger Dobson referred to the inevitable loss of staff due to de-commissioning, however, in light of the recent news regarding Wylfa Newydd, opportunities for displaced staff may not be available in future. He enquired whether there were any arrangements for enhanced severance payments/support. SL responded by providing details of the support package currently available and the arrangements in place during the 3 months' notice period to look at wider opportunities for displaced staff e.g. Trawsfynydd; Magnox and other organisations. He complimented SL and colleagues on this.

Roger Dodson stated In the long term, his recollection of Wylfa's Care and Maintenance plans and final decommissioning would be in about 100 years (although he appreciated that this may accelerate), and asked when will the reactor buildings come down?

Stuart Law responded and advised the current Life Time Plan proposal is in the Summer of 2026 when the site will have completed Decommissioning and entered into C&M. Reactors 1 and 2 and Secondary Dry Store Cell will remain and everything else knocked down and removed.

Roger Dobson asked if the cladding on the reactor buildings would also remain and SL confirmed that this was the case.

Cllr Ken Hughes enquired as to what the *'significant improvement achieved'* noted by Tom Smith Chair of the NDA during his recent visit. SL stated that the improvements were around the increase in defueling flasks from 2.6 flasks per week to 4.8. He also referred to achieving greater efficiency from equipment as a result of greater reliability.

Cllr G W Roberts referred to the need to establish a specific forum to consider how to move forward in light of the recent news regarding the Wylfa Newydd situation. SL confirmed that Welsh Government is considering this.

Mr Law was thanked for his detailed update report.

6 Nuclear Decommissioning Authority Update
Mr Bill Hamilton was welcomed to the meeting. An NDA monthly update brief for January was shared with members. BH drew particular attention to the following:-

He referred to work ongoing with staff from the Magnox Communications Team and the NDA to provide appropriate support to both graduates and apprentices during this time of hiatus with the Wylfa Newydd project.

He stated that the Bradwell Site in Essex has reached the passive stage of its journey to full site clearance, an 80-year phase known as 'care and maintenance' (C&M). An extensive programme of decommissioning has been under way since the power station stopped generating electricity in 2002. For C&M, all that will remain on the site are the two weather-proofed reactor buildings, the ponds complex, and the intermediate level waste store, which will continue to receive some packages from Dungeness A and Sizewell A.

During November an exhibition at Whitehaven's Beacon Museum marked the end of nuclear fuel reprocessing at Sellafield's Thermal Oxide Reprocessing Plant (THORP). Its switch-off is a key step in the transformation of Sellafield Ltd from nuclear operator to environmental restoration business.

David Peattie, NDA Chief Executive has announced that Lawrie Haynes has been appointed Chair Designate of the NDA subsidiary Magnox Ltd. The new subsidiary will come into being on 1 September 2019 when the current Parent Body Organisation, the Cavendish Fluor Partnership, hands over to the NDA. Mr Haynes has extensive experience in senior executive and non-executive roles across a range of major private sector companies and high profile public sector organisations, with a strong track record in the nuclear sector. These include his roles as President of Rolls-Royce Land and Sea Division, Chief Executive of British Nuclear Group and Non-Executive Director at Network Rail.

Halliday Enquiry – BH informed members that the enquiry report will, hopefully, be published in 2019 the delay being due to ongoing legal discussions.

Stakeholder Summit – a date has been agreed for the annual NDA Stakeholder Summit; 9 – 10 July at the new engineering centre at GRWP Llandrillo Menai, Llangefni.

Question and Answer session

Cllr Derek Owen acknowledged the good news regarding the NDA Summit details but enquired whether there were any developments/plans for the north of the Island. BH confirmed that work is ongoing with the Magnox socio-economic team to ensure local funding and support. SL stated that no large scale funding requests had been received recently; however, he wished to remind members of the funding support given to several projects on the Island e.g. the Morlais project; Llangefni link road; Old Royal Mail Sorting Office Holyhead and the Capel Bethlehem Cemaes ongoing project. BH confirmed that the SSG Chair is in continual discussion with the NDA and that full consideration will be given to any robust concrete projects identified for financial support.

Cllr G W Roberts requested that BH report on the comments noted by the SSG today regarding support to North Anglesey area back to the NDA Executive, and BH agreed to do so.

Mr Hamilton was thanked for his report.

7 Office for Nuclear Regulation Update

John McGough had tendered his apologies; however, a written report was included in the meeting papers previously circulated to members. In general, ONR judged the arrangements made and implemented by the site in response to safety requirements to be adequate in the areas inspected. The content of the report was received and accepted by members.

Mr McGough, as of the 1 April 2019, will no longer be in his current role as Wylfa Site Inspector, and Mr Ian Dallas will be taking his place.

8 Natural Resources Wales Update

Rona Arkle was welcomed to the meeting and provided and guided members through the report previously circulated.

Discharges from Wylfa
All radioactive discharges from Wylfa remain well within the annual limits set in the site's radioactive substances environmental permit.

All non-radioactive discharges to water remain within the limits set in the site's water discharge permits.

Environmental monitoring
Environmental Monitoring results are widely reported and can be found at: https://www.gov.uk/government/publications/radioactivity-in-food-and-the-environment-rife-reports

The total dose to the representative person in 2017 as a result of discharges and direct radiation from Wylfa was less than 0.005 mSv (less than 0.5% of the annual dose limit for a member of the public).

Routine Regulatory Matters
NRW visited Wylfa to carry out an inspection on clearance and non-radioactive waste management on 3/4 October 2018. The inspection included the non-radioactive waste management facility, and reviewed clearance monitoring records, skip logs and consignment notes. The waste facility was generally well organised, with appropriate segregation of waste. Some minor recommendations were made to ensure that all cleared waste is traceable and to ensure that skip logs are comprehensive.

Boreholes which have been installed recently to sample groundwater were also inspected with initial monitoring results providing reassurance that the groundwater at Wylfa is not contaminated by radioactive or non-radioactive pollutants. Monitoring is expected to continue for the next few years.

Permitting
Drainage from sumps and surface water drains in the seawater cooling pumphouse area has been re-routed to an existing permitted discharge route. We plan to vary the radioactive substances permit for Wylfa. NRW will reduce the notification levels for discharges, to reflect reduced monthly discharges since electricity generation ceased. They will also introduce new conditions related to our recently-published guidance on management of radioactive waste from decommissioning, which will require Magnox Ltd to produce a waste management plan and site-wide environmental safety case.

Events & enforcement
There have been no significant environmental events at Wylfa during this reporting period.

Geological disposal of radioactive waste
On 16 January 2019, Welsh Government published a written statement on *Geological disposal of radioactive waste: working with potential host communities*. The Welsh Government has adopted a policy of supporting geological disposal for the long-term management of higher activity radioactive waste (HAW) since 2015. A GDF can only be sited in Wales if a community is willing to host it, and a suitable and safe site can be found. The recently published document outlines the engagement process for communities who wish to enter into discussions on potentially hosting a geological disposal facility (GDF).

Natural Resources Wales and the Environment Agency have produced joint guidance on our requirements for decommissioning of nuclear sites, which can be found here: https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities

Rona Arkle was thanked for her report.

9 Wylfa Waste Management Update

Mr Law provided a brief update during Item 5 recorded above

10 Magnox Socio-Economic Scheme Update

Mair Jones gave a short presentation on the achievements of the socio-economic scheme. She noted that to date, 18 applications have been supported from communities surrounding Wylfa site this financial year. A total of £138,790 NDA funding has been distributed through the Magnox Socio-economic scheme.

Good Neighbour funding recipients:
Amlwch Snooker Club – were awarded £800 towards resurfacing the snooker tables for the club.

Ysgol Uwchradd Bodedern- received £450 to help them on their way with their F24 electric go-cart in the International finals in Rockingham.

Môn-SAR (Anglesey Lowland Search and Rescue - received £1,000 funding to purchase a new medical equipment bag for use by the team. The funding also allowed two control vehicle team members the opportunity to attend an online mapping and search course.

Ynys Môn Island Games Athletics Association –received £900 to purchase 30 Magnox branded competition team kits for the 2019 Island Games, which will be held in Gibraltar in July.

Sustainable Communities funding:
Grwp Hanes Y Llan - in December, Magnox attended the official book launch of 'Un Tro yn Amlwch'. The group were awarded £1,500 funding to help publish their book. Over 250 copies have been sold since the launch. Books are available to order for £10 by contacting 07488581506. All profits will go towards publishing a second edition and second volume.

Bethesda Rugby Club – received £9,910 to purchase IT and audio visual equipment from a local supplier for their new community hub. The total project cost was over £500,000. and is due to open in March.

Update on the larger, ongoing transformational projects supported:
Capel Bethlehem, Cemaes CIC update -
Having secured £150,000 of Magnox funding last financial year, Cemaes CIC have been successful in securing planning permission from Isle of Anglesey County Council.

Funding is available on a rolling programme and prioritised towards aims 2 and 3, where the biggest and most sustainable socio-economic benefit can be achieved.
More information on the scheme and funding criteria is available at:
https://magnoxsocioeconomic.com

11 Open Forum Question and Answer Session

No Open Forum questions presented.

12 Wylfa Newydd

The Chair referred to the current pause on the Wylfa Newydd development. He confirmed that he had spoken, and written formally, to the NDA Chair requesting an assurance that the current apprentice places be secured within the NDA estate and that Wylfa be prioritized for socio economic funding and support. He reiterated the importance of active engagement between the NDA and the SSG. Cllr G W Roberts stated that working toward progressing the apprenticeships was positive news.

.

13 Cestyll Gardens

The Chair advised the SSG Members that he had written to the NDA requesting for ownership to be transferred to the National Trust**.** This is especially significant to local people as family ashes have been dispersed in the gardens.

14. **Any Other Business**

It was noted that the Development Consent Order (DCO) process timeline will not be known for another two weeks.

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 3.06pm

Next Meeting – Thursday 19 September 2019, David Hughes Village Hall, Cemaes.

Site Stakeholder Group

Crynodeb o'r pwyntiau Allweddol o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle'r Wylfa ar 31ain Ionawr 2019

1. Darparodd y Cadeirydd ddiweddariad ar gyfer yr aelodau ynglŷn â'i weithgareddau GRhS ers mis Hydref 2018, gan gyfeirio at:

   - Gyfarfod Cadeiryddion GRhS Gweithredol *Magn*ox, ar 19eg Tachwedd 2018 yn Llundain
   - Gweithdy Datgomisiynu Adweithyddion yr ADN, ar 28ain Tachwedd 2018 yn Llundain
   - Cyfarfod â Paul Vallance, Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau'r ADN a Lawrie Haynes, Darpar Gadeirydd *Magn*ox Ltd, 16eg Ionawr 2019 yn Warrington

2. Cyflwynwyd Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle gan Stuart Law a thynnodd sylw arbennig at:

   - Weithrediadau'r Safle a'r Prosiectau Allweddol
   - Trawsnewid at Baratoadau Gofal a Chynnal

3. Dararpwyd diweddariad o weithgareddau drwy'r Ystâd ar ran yr ADN gan Bill Hamilton o'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

4. Cyflwynwyd diweddariad gan Rona Arkle ynglŷn â gweithgaredd CNC yn yr Wylfa

5. Cyflwynwyd diweddariad ynglŷn â derbynwyr Cynllun Cymdeithasol-economaidd *Magnox* gan Mair Jones.

.

Site Stakeholder Group

Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle'r Wylfa
Dydd Iau, 31ain Ionawr 2019, yn Neuadd David Hughes, Cemaes

Presennol:

Y Cynghorydd Aled M Jones	Ward Twrcelyn CSYM a Chadeirydd GRhS
D Stuart Law	Cyfarwyddwr y Safle, *Magnox*
Mair Jones	Arweinydd Cymdeithasol-economaidd *Magnox*, Cymru a'r Alban
Caron Weaver	Rheolwr Asedau a Chyfarwyddwr Gwella, *Magnox*
Bill Hamilton	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Rona Arkle	Cyfoeth Naturiol Cymru
Charlotte Parrington	Cyfoeth Naturiol Cymru
Roy Chape	DCWW
Enid Jones	Merched y Wawr
Sue Scott	Sefydliad y Merched Ynys Môn
Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Mark Elsworth	Pennaeth Cemeg, *Magnox*
Y Cynghorydd Gareth W Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Y Cynghorydd Ken Hughes	Ward Talybolion CSYM
Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Richard Griffiths	Cyngor Tref Amlwch
Roger Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig

Hefyd:

Ann Llwyd	Cyfieithydd – Cymen
Sydna Roberts	Cofnodwr – Cymen

Ymddiheuriadau:

Michelle Humphreys	Arweinydd Cyfathrebiadau Rhanbarthol, *Magnox*
John McGough	SRN
Julia Frost	Cyfoeth Naturiol Cymru
John Idris Jones	Parth Menter Eryri
Gwyn Hughes	Swyddog Cynllunio Argyfyngau CSYM
John Griffiths	Ward Talybolion CSYM
Llinos M Huws	Ward Talybolion CSYM
R O Jones	CSYM

1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd am 2pm. Nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

2 Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Hydref 2018

Roedd y cofnodion wedi cael eu cylchredeg cyn y cyfarfod. Cynigiodd y Cynghorydd G W Roberts fod y cofnodion yn gywir a chafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd K Hughes. Derbyniwyd y cofnodion fel gwir gofnod.

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol

Ni chodwyd unrhyw faterion. Fodd bynnag, nodwyd bod e-byst wedi cael eu hanfon at Gynghorau Cymuned Rhosybol a Llaneilian i ofyn am gynrychiolwyr i ymuno ag aelodau GRhS sy'n pleidleisio yn dilyn y Cyfansoddiad a ddiweddarwyd.

4 Adroddiad Cadeirydd GRhS

Darparwyd trosolwg gan y Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf a thynnodd sylw arbennig at:

- Gyfarfod Cadeiryddion GRhS Gweithredol *Magnox* ar 19eg Tachwedd 2018 yn Llundain
- Gweithdy Datgomisiynu Adweithyddion yr ADN ar 28 Tachwedd, 2018 yn Llundain
- Cyfarfod â Paul Vallance, Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau'r ADN a Lawrie Haynes, Darpar Gadeirydd *Magnox Ltd.* ar 16eg Ionawr 2019 yn Warrington

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle'r Wylfa

Cyflwynodd Stuart Law ei adroddiad. Roedd copïau o'r adroddiad wedi cael eu hanfon ymlaen at aelodau GRhS ac roedden nhw hefyd ar gael yn y cyfarfod. Yn gryno, cyfeiriodd Mr Law at:

Gweithrediadau ar y safle a Phrosiectau Allweddol

Roedd perfformiad gwaredu tanwydd yn ystod y cyfnod adrodd yn parhau i ragori, gyda 1013 o elfennau tanwydd wedi cael eu gwaredu o'r adweithyddion mewn wythnos, sef y nifer uchaf erioed. Roedd gweithrediadau gwaredu tanwydd wedi parhau dros gyfnod y Nadolig er mwyn cyrraedd y garreg filltir gwaredu tanwydd o 80%. O 16eg Ionawr 2019 ymlaen, roedd 82% o'r tanwydd wedi cael ei waredu o'r adweithyddion yn gyffredinol, gyda 23,053 o weddillion elfennau tanwydd yn parhau ar y safle a 154 llwyth o fflasgiau tanwydd ar ôl.

Cynhaliwyd arddangosiad oeri goddefol ar adweithydd Un ym mis Hydref er mwyn profi y gellid cadw tymereddau'r tanwydd a'r concrid o fewn cyfyngiadau achos diogelwch heb yr angen i ddefnyddio oeri'r boeler at graidd yr adweithydd er mwyn cadw o fewn cyfyngiadau gweithredu. Yn dilyn cymeradwyo'r achos diogelwch, cyhoeddwyd bod adweithydd Un mewn cyfundrefn oeri oddefol ar 6ed Rhagfyr 2018. Felly, roedd yr holl gyfarpar sy'n gysylltiedig â diogelwch niwclear a'u rheolau gweithredu wedi cael eu diddymu.

O ganlyniad, roedd llawer iawn o waith wedi cael ei dynnu oddi ar yr amserlen cynnal a chadw niwclear, ac roedd y boeleri a'r system fwydo wrth gefn, y system fwydo drydyddol a'r generaduron diesel y safle i gyd wedi cael eu diddymu. Mae hyn yn garreg filltir arwyddocaol yng nghylch bywyd gweithredol y safle.

Cwblhawyd prosiect Cell Storfa Sych Pedwar (CSS4) i waredu 37 o diwbiau sgip a oedd yn

cynnwys gweddillion cyrydiad elfennau tanwydd ym mis Hydref, gan ddod ag un o heriau adfer gwastraff lefel canolraddol fwyaf anodd at ganlyniad llwyddiannus.

Darganfuwyd dau achos o ffiwsiau yn ystod yr Archwiliad a Phrawf Cyfnodol (APhC) nad oedd yn cydweddu â'r mesurau yn y cofnodion. Roedd hyn yn dilyn problemau blaenorol gyda ffiwsiau ar y safle yn 2016. Yn ychwanegol, nododd y SRN yn ogystal fod niferoedd bychain o fyrddau ffiwsiau heb eu cloi a/neu'n anniben, gyda ffiwsiau a dalwyr sbâr a oedd yn rhydd yn ystod taith o gwmpas y safle wedyn. Roedd hyn wedi arwain at gyfradd ambr ar gyfer yr adolygiad a llythyr gorfodaeth SRN mewn perthynas â Deddf Trydan yn y Gweithle 1989.

Mae'r Ganolfan Rheoli Argyfyngau Amgen a leolir yn *The Firs* ar Ffordd Cemlyn wedi cael ei hadleoli i gyn-Ganolfan Dysgu a Datblygu *Magnox* yng Ngholeg Menai, Llangefni. Mae'r cyfleuster hwn yn galluogi *Magnox* i ymgymryd â gorchymyn a rheoli digwyddiad pe bai'r ganolfan rheoli argyfyngau ar y safle (CRhA) yn cael ei thybio yn anghynaliadwy. Mae'r un systemau radio diwydiannol argyfyngol, ffonau lloeren, system monitro ymbelydredd a'r holl systemau cyfathrebu a'r systemau cyflenwi gwrthgefn angenrheidiol yno.

Trawsnewid i Baratoadau Gofal a Chadw
Mae nifer o weithgareddau ar y gweill i gefnogi trawsnewidiad y safle o waredu tanwydd i baratoadau gofal a chadw mewn ffordd ddiogel, sy'n cydymffurfio:

Gwnaed gwelliannau rheoli trafnidiaeth i gynyddu gweledegdd y llwybrau cerdded dynodedig a gwahanu ffyrdd a llwybrau gyda rhwystrau i gerddwyr.

Mae copi drafft o strwythur trefniadol datgomisiynu sy'n unol â chynllun oes gyfan y safle yn cael ei ddatblygu. Mae hwn wedi cael ei gadarnhau gan Weithrediad *Magnox* a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Undebau Llafur a'r gweithlu.

Bydd cael gwared â gwaith sifft yn un o'r newidiadau mwyaf ar ôl gwaredu tanwydd. Mae hyn yn debygol o gael ei gynnal mewn dau gam, sy'n gymesur â phroffil risg is y safle. Bydd Cam 1 yn lleihau lefelau staff, ond bydd yn parhau i gynnal presenoldeb gweithredol y safle 24/7. Ar ôl cyfnod o dri mis, bydd Cam 2 yn cynnwys cael gwared â sifftiau a pheidio â chyflogi staff drwy'r amser.

Mae rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar y gweill ar gyfer holl staff *Magnox* a chynrychiolwyr allweddol ein prif sefydliadau contractio er mwyn paratoi'r gweithlu ar gyfer goblygiadau drwy'r safle o ddiddymu ein darpariaethau argyfwng oddi ar y safle presennol wrth inni drawsnewid i weithio i Drefniadau Hapddigwyddiad.

Gweithrediadau Safle Maentwrog
Glawiad rhwng 28ain Ebrill tan 31ain Awst 2018 oedd 712.3mm. Cynhyrchiant trydan yn ystod yr un cyfnod oedd 26.2 Gigawat Awr yn erbyn targed o 21 Gigawat Awr.

Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, Diogeledd ac Ansawdd (AIDDaA)
Ystadegau Diogelwch 18 Ionawr
Cyfanswm cyfradd y digwyddiadau a gofnodwyd (CCDG): 0.18
Cyfradd achosion dyddiau i ffwrdd (CADFf): 0.18
Nifer o ddyddiau ers damwain lle collwyd amser: 191

Ymweliadau
Ymwelodd Tom Smith, Cadeirydd yr ADN, â ni ar Safle'r Wylfa ar 5ed Hydref ac roedd yn ganmoliaethus iawn ynglŷn â'r bobl yr oedd wedi'u cyfarfod ac roedd yn cydnabod y

gwelliannau sylweddol a oedd yn cael eu cyflawni. Yn ogystal, cyfarfu â Chadeirydd ac Is-gadeirydd GRhS cyn mynd ar daith o gwmpas y safle.

Ymwelodd Adrienne Kelbie, PSG SRN, Mark Foy, Prif Arolygydd SRN a John McGough, Arolygwr Safleoedd SRN, â ni ar 19eg Hydref er mwyn gweld llwybr y tanwydd ar waith. Roedden nhw hefyd wedi cael trafodaeth fanwl ag aelodau Rhwydwaith Merched mewn Niwclear.

Gweithlu
Ar 31ain Rhagfyr 2018, roedd 287 o weithwyr a 26 o Weithwyr a Gyflenwyd gan Asiantaethau ar y safle (heb gynnwys staff Diogelwch na staff Swyddfa Cefnogi *Magnox* sydd wedi'u lleoli yn yr Wylfa).
Cyfeiriodd SL hefyd at sawl digwyddiad codi arian a drefnwyd gan y gweithlu i gefnogi elusennau lleol, teilwng.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb

Cyfeiriodd Roger Dobson at golli staff a oedd yn anochel oherwydd y datgomisiynu. Fodd bynnag, yng ngoleuni newyddion diweddar ynglŷn â Wylfa Newydd, efallai na fydd cyfleoedd ar gyfer staff sydd wedi cael eu diswyddo ar gael yn y dyfodol. Holodd a oedd yna unrhyw drefniadau ar gyfer taliadau/cefnogaeth gwell ar gyfer diswyddiadau. Ymatebodd SL drwy ddarparu manylion ynglŷn â'r pecyn cefnogaeth a oedd ar gael ar hyn o bryd a'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu yn ystod y cyfnod rhybudd o 3 mis, er mwyn edrych ar gyfleoedd ehangach ar gyfer staff sydd wedi cael eu diswyddo, e.e. Trawsfynydd; *Magnox* a sefydliadau eraill. Canmolodd SL a'i gydweithwyr am hyn.

Nododd Roger Dobson yn yr hirdymor, byddai'i atgofion ynglŷn â chynlluniau Gofal a Chadw'r Wylfa a'i datgomisiynu terfynol mewn oddeutu 100 mlynedd (er ei fod yn gwerthfawrogi y gall hyn gyflymu), a gofynnodd pryd fydd adeiladau'r adweithydd yn cael eu dymchwel?

Ymatebodd Stuart Law drwy hysbysu bod y cynnig Cynllun Oes Gyfan presennol yn ystod Haf 2026 pan fydd y safle wedi cwblhau'r gwaith Datgomisiynu ac wedi mynd i mewn i'r GaCh. Bydd Adweithyddion 1 a 2 a'r Gell Storio Sych Eilaidd yn parhau a bydd popeth arall yn cael eu dymchwel a'u tynnu oddi ar y safle.

Gofynnodd Roger Dobson a oedd y cladin ar adeiladu'r adweithyddion hefyd yn aros a chadarnhaodd SL bod hyn yn wir.

Holodd y Cynghorydd Ken Hughes ynglŷn â beth oedd y *'gwelliant sylweddol a gyflawnwyd'* a nodwyd gan Tom Smith, Cadeirydd yr ADN yn ystod ei ymweliad diweddar. Nododd SL fod y gwelliannau yn cyfeirio at y fflasgiau gwaredu tanwydd a oedd wedi cynyddu o 2.6 fflasg yr wythnos i 4.8 fflasg yr wythnos. Cyfeiriodd hefyd at gyflawni mwy o effeithiolrwydd o'r cyfarpar, o ganlyniad i fwy o ddibynadwyedd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G W Roberts at yr angen i sefydlu fforwm penodol i ystyried sut i symud ymlaen yng ngoleuni'r newyddion diweddar ynglŷn â sefyllfa Wylfa Newydd. Cadarnhaodd SL bod Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn.

Diolchwyd i Mr Law am ei adroddiad manwl a oedd yn diweddaru'r sefyllfa.

6 Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Croesawyd Mr Bill Hamilton i'r cyfarfod. Rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau ynglŷn â briff diweddariad misol yr ADN ar gyfer mis Ionawr. Tynnodd BH sylw arbennig at y canlynol:-

Cyfeiriodd at waith sy'n mynd ymlaen gyda staff o Dîm Cyfathrebiadau *Magnox* a'r ADN i ddarparu cefnogaeth briodol ar gyfer graddedigion a phrentisiaid fel ei gilydd yn ystod yr amser hwn o fwlch gyda phrosiect Wylfa Newydd.

Nododd bod Safle Bradwell yn Essex wedi cyrraedd cam goddefol ei siwrnai i glirio'r safle yn gyfan gwbl, cyfnod 80 mlynedd sy'n cael ei adnabod fel 'gofal a chadw' (GaCh). Bu rhaglen datgomisiynu eang ar y gweill ers i'r orsaf bŵer roi'r gorau i gynhyrchu trydan yn 2002. Ar gyfer GaCh, y cwbl a fydd ar ôl ar y safle fydd dau adeilad lle lleolir adweithyddion a fydd yn cael eu diogelu rhag y tywydd, y cyfadeilad pyllau a'r storfa ar gyfer gwastraff lefel ganolraddol, a fydd yn parhau i dderbyn rhai pecynnau o Dungeness A a Sizewell A.

Yn ystod mis Tachwedd, roedd arddangosfa yn Amgueddfa Beacon yn Whitehaven yn nodi diwedd yr ailbrosesu tanwydd niwclear yng Ngwaith Ailbrosesu Ocsid Thermal yn Sellafield (GAOTh). Mae troi hwn i ffwrdd yn gam allweddol yn nhrawsnewidiad Sellafield Ltd o weithredwr niwclear at fusnes adfer amgylcheddol.

Mae David Peattie, Prif Weithredwr yr ADN wedi cyhoeddi bod Lawrie Haynes wedi cael ei benodi fel Darpar Gadeirydd *Magnox Ltd*, sef is-gwmni'r AND. Bydd yr is-gwmni newydd yn dechrau ar 1 Medi 2019 pan mae'r Sefydliad Rhiant-Gorff presennol, sef y *Cavendish Fluor Partnership* yn trosglwyddo i'r ADN. Mae gan Mr Haynes brofiad eang mewn swyddogaethau uwch weithredol a swyddogaethau anweithredol ar draws amrediad o gwmnïau mawr y sector preifat a sefydliadau uchel eu proffil yn y sector cyhoeddus, gyda hanes blaenorol cryf yn y sector niwclear. Mae'r rhain yn cynnwys ei swyddogaethau fel Llywydd Adain Tir a Môr Rolls-Royce, Prif Weithredwr y Grŵp Niwclear Prydeinig a Chyfarwyddwr Anweithredol Network Rail.

Ymholiad Halliday – Darparwyd gwybodaeth gan BH ar gyfer yr aelodau y bydd adroddiad yr ymholiad yn cael ei gyhoeddi yn 2019 gobeithio, ac mae'r oedi wedi bod oherwydd trafodaethau cyfreithiol sy'n mynd ymlaen.

Uwchgynhadledd y Rhanddeiliaid – cytunwyd ar ddyddiad ar gyfer Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid yr ADN; 9 -10 Gorffennaf yn y Ganolfan Beirianneg newydd yn GRŴP Llandrillo Menai, Llangefni.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb

Cydnabu'r Cynghorydd Derek Owen y newyddion da ynglŷn â manylion Uwchgynhadledd yr ADN, ond holodd a oedd yna unrhyw ddatblygiadau/cynlluniau ar gyfer gogledd yr Ynys. Cadarnhaodd BH fod gwaith yn mynd ymlaen gyda thîm cymdeithasol-economaidd *Magnox* er mwyn sicrhau cyllid a chefnogaeth leol. Nododd SL na dderbyniwyd unrhyw geisiadau cyllid ar raddfa fawr yn ddiweddar. Fodd bynnag, roedd yn dymuno atgoffa aelodau ynglŷn â'r gefnogaeth ariannol a roddwyd i sawl prosiect ar yr ynys, e.e. prosiect Morlais; ffordd gyswllt Llangefni; Swyddfa Didoli'r Post Brenhinol yng Nghaergybi a phrosiect Capel Bethlehem, Cemaes sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cadarnhaodd BH fod cadeirydd y GRhS mewn trafodaeth barhaol â'r ADN a bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i unrhyw brosiectau pendant, cadarn a nodwyd ar gyfer cefnogaeth ariannol.

Gofynnodd y Cynghorydd G W Roberts i BH adrodd yn ôl ynglŷn â'r sylwadau a nodwyd gan y GRhS heddiw ynglŷn â chefnogaeth i ardal Gogledd Môn i Weithrediad yr ADN, a chytunodd BH i wneud hyn.

Diolchwyd i Mr Hamilton am ei adroddiad.

7 Diweddariad ynglŷn â'r Swyddfa dros Reoli Niwclear

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John McGough. Fodd bynnag, roedd adroddiad ysgrifenedig wedi'i gynnwys ym mhapurau'r cyfarfod a gylchredwyd yn flaenorol i'r aelodau. Yn gyffredinol, roedd yr SRN yn teimlo bod y trefniadau a gafodd eu gwneud a'u gweithredu gan y safle mewn ymateb i'r ffaith bod gofynion diogelwch yn ddigonol yn yr ardaloedd a gafodd eu harolygu. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad gan yr aelodau.

Ni fydd Mr McGough, o 1af Ebrill 2019 ymlaen, yn ei swydd bresennol fel Arolygwr Safle'r Wylfa a Mr Ian Dallas fydd Arolygwr newydd y safle.

8 Diweddariad gan Gyfoeth Naturiol Cymru

Croesawyd Rona Arkle i'r cyfarfod ac arweiniodd yr aelodau drwy'r adroddiad a gafodd ei gylchredeg yn flaenorol.

Gollyngiadau o'r Wylfa

Mae'r holl ollyngiadau o'r Wylfa yn parhau i fod ymhell o fewn y cyfyngiadau blynyddol a osodir yn nhrwydded amgylcheddol sylweddau ymbelydrol y safle.

Mae'r holl ollyngiadau anymbelydrol i ddŵr yn parhau i fod ymhell o fewn y cyfyngiadau a osodir yn nhrwyddedau gollyngiadau dŵr y safle.

Monitro Amgylcheddol

Mae canlyniadau Monitro Amgylcheddol yn cael eu hadrodd yn eang a gellir eu gweld drwy fynd i:
https://www.gov.uk/government/publications/radioactivity-in-food-and-the-environment-rife-reports

Roedd y dogn cyfan i'r unigolyn cynrychioliadol yn 2017 o ganlyniad i ollyngiadau ac ymbelydredd uniongyrchol o'r Wylfa yn llai na 0.005 mSv (llai na 0.5% o gyfyngiad dogn blynyddol ar gyfer aelod o'r cyhoedd).

Materion Rheoleiddiol Arferol

Ymwelodd CNC â'r Wylfa i gynnal arolwg ar glirio a rheoli gwastraff anymbelydrol ar y 3ydd a'r 4ydd o Hydref 2018. Roedd yr arolwg yn cynnwys y cyfleuster rheoli gwastraff anymbelydrol, ac adolygu cofnodion monitro clirio, cofnodion sgipiau a nodiadau danfon. Roedd y cyfleuster gwastraff yn gyffredinol wedi'i drefnu yn dda, gan wahanu gwastraff yn briodol. Gwnaed rhai argymhellion bychain er mwyn sicrhau bod pob gwastraff sy'n cael ei glirio yn gallu cael ei olrhain ac er mwyn sicrhau bod cofnodion sgipiau yn gynhwysfawr.

Cafodd tyllau turio sydd wedi cael eu gosod yn ddiweddar er mwyn samplu dŵr daear eu harolygu hefyd, gyda chanlyniadau monitro cychwynnol yn darparu sicrwydd nad yw'r dŵr daear yn yr Wylfa wedi'i ddifwyno gyda llygrwyr ymbelydrol na llygrwyr anymbelydrol. Disgwylir i'r gwaith monitro barhau am yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Trwyddedu

Mae draeniad o swmpau a draeniau dŵr wyneb yn ardal y tŷ pympiau sy'n oeri dŵr y môr wedi cael eu hailgyfeirio at lwybr gollyngiad a ganiateir yn bresennol. Rydym yn cynllunio i amrywio trwydded sylweddau ymbelydrol ar gyfer yr Wylfa. Bydd CNC yn lleihau'r lefelau hysbysu ar gyfer gollyngiadau, er mwyn adlewyrchu'r gollyngiadau misol is ers i

gynhyrchiant trydan ddod i ben. Byddan nhw yn ogystal yn cyflwyno amodau newydd yn gysylltiedig â'n canllawiau sydd wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar ynglŷn â rheoli gwastraff ymbelydrol o ddatgomisiynu, a bydd angen i *Magnox Ltd* gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff ac achos diogelwch amgylcheddol ar gyfle y safle gyfan.

Digwyddiadau a gorfodaeth
Ni fu unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol arwyddocaol yn yr Wylfa yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Gwaredu daearegol ar gyfer gwastraff ymbelydrol
Ar 16eg Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â *Gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol: Gweithio gyda chymunedau allai fod yn fodlon cynnig lleoliad*. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi o gefnogi gwaredu daearegol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) yn yr hirdymor ers 2015. Gellir rhoi CGD yng Nghymru yn unig os yw cymuned yn fodlon ei groesawu, ac os gellid darganfod safle addas a diogel. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu'r broses ymgysylltu ar gyfer cymunedau sy'n dymuno trafod croesawu cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) o bosibl.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynhyrchu canllawiau ar y cyd ynglŷn â'n gofynion ar gyfer datgomisiynu safleoedd niwclear, a gellir eu gweld yma: https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities

Diolchwyd i Rona Arkle am ei hadroddiad.

9 Diweddariad ynglŷn â Rheoli Gwastraff yr Wylfa
Rhoddodd Mr Law ddiweddariad byr yn ystod Eitem 5 a gofnodwyd uchod.

10 Diweddariad ynglŷn â Chynllun Cymdeithasol-economaidd *Magnox*
Rhoddwyd cyflwyniad byr gan Mair Jones ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd gan y cynllun cymdeithasol-economaidd. Nododd fod 18 o geisiadau wedi derbyn cefnogaeth hyd yma o gymunedau o gwmpas safle'r Wylfa eleni. Roedd cyfanswm o £138,790 o gyllid yr ADN wedi cael ei ddosbarthu drwy gynllun cymdeithasol-economaidd *Magnox*.

Derbynwyr cyllid Cymydog Da:
Clwb Snwcer Amlwch – rhoddwyd £800 tuag at ailwynebu'r byrddau snwcer ar gyfer y clwb.

Ysgol Uwchradd Bodedern – derbyniodd yr ysgol £450 er mwyn eu helpu i ddechrau gyda'u certiau rasio trydan F24 yn y Rownd Derfynol Ryngwladol yn Rockingham.

Mon-ChaA (Chwilio ac Achub Iseldir Ynys Môn – derbyniodd £1,000 o gyllid i brynu bag cyfarpar meddygol newydd i'w ddefnyddio gan y tîm. Yn ogystal, roedd y cyllid yn rhoi cyfle i ddau o aelodau'r tîm cerbydau rheoli fynychu cwrs mapio a chwilio ar-lein.

Cymdeithas Athletau Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn – derbyniodd £900 i brynu 30 o wisgoedd tîm cystadleuaeth gyda brand *Magnox* ar gyfer Gemau'r Ynys yn 2019, a gynhelir yn Gibraltar ym mis Gorffennaf.

Cyllid Cymunedau Cynaliadwy:

Grŵp Hanes Y Llan – ym mis Rhagfyr, mynychodd *Magnox* lansiad swyddogol y llyfr 'Un Tro yn Amlwch'. Rhoddwyd £1,500 i'r grŵp er mwyn helpu iddyn nhw gyhoeddi eu llyfr.

Mae dros 250 o gopïau wedi cael eu gwerthu ers y lansiad. Mae'r llyfrau ar gael i'w harchebu am £10 yr un drwy gysylltu â 07488 581506. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at gyhoeddi ail argraffiad ac ysgrifennu ail gyfrol.

Clwb Rygbi Bethesda – derbyniodd £9,910 i brynu cyfarpar TG a chyfarpar clyweledol gan gyflenwr lleol ar gyfer eu canolfan gymunedol newydd. Roedd cyfanswm y prosiect cyfan dros £500,000 a rhagwelir y bydd yn agor ym mis Mawrth.

Diweddariad ynglŷn â'r prosiectau trawsnewidiol parhaus, mwy sy'n cael eu cefnogi:
Capel Bethlehem, diweddariad CBC Cemaes –
Ar ôl derbyn £150,000 gan *Magnox* yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae CBC Cemaes wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn caniatâd cynllunio gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Mae cyllid ar gael ar raglen dreigl ac yn cael ei flaenoriaethu tuag at nodau 2 a 3, lle gellir cael y budd cymdeithasol-economaidd mwyaf cynaliadwy a'r budd mwyaf. Ewch i: https://magnoxsocioeconomic.com er mwyn cael gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynllun a'r meini prawf cyllid.

11 Sesiwn Cwestiwn ac Ateb y Fforwm Agored

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan y Fforwm Agored.

12 Wylfa Newydd

Roedd y Cadeirydd wedi cyfeirio at yr oedi presennol ar ddatblygiad Wylfa Newydd. Cadarnhaodd ei fod wedi siarad, ac wedi ysgrifennu yn ffurfiol, at Gadeirydd yr ADN yn gofyn am sicrwydd bod y lleoedd prentisiaid presennol yn cael ei sicrhau o fewn ystâd yr ADN ac y bydd yr Wylfa yn cael blaenoriaeth ar gyfer cyllid a chefnogaeth cymdeithasol-economaidd. Ailadroddodd y pwysigrwydd o ymgysylltiad gweithredol rhwng yr ADN a GRhS. Nododd y Cynghorydd G W Roberts fod gweithio tuag at symud ymlaen â'r prentisiaethau yn newyddion da.

13 Gerddi Cestyll

Hysbysodd y Cadeirydd Aelodau'r GRhS ei fod wedi ysgrifennu at yr ADN yn gofyn i berchnogaeth y gerddi gael ei throsglwyddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i bobl leol oherwydd bod llwch teuluol wedi cael eu gwasgaru yn y gerddi.

14. Unrhyw Fater Arall

Nodwyd na fydd yr amserlen proses y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) yn wybyddus am bythefnos arall.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben am 3.06pm.

Cyfarfod nesaf – Dydd Iau, 19eg Medi 2019, yn Neuadd Bentref David Hughes, Cemaes.